**Teitl y Swydd:** **Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu**

**Yn adrodd wrth:** **Y Cyfarwyddwr Gweithredol**

---

Mae NoFit State yn gwmni syrcas gyfoes sydd ag enw da yn rhyngwladol. Bob blwyddyn, mae'r cwmni'n mynd â chynyrchiadau ar daith yn ei Big Top ac yn perfformio mewn theatrau a safleoedd awyr-agored ledled Prydain a thramor. Yng nghartref y cwmni yng Nghaerdydd, cynhelir rhaglen o ddosbarthiadau a phrosiectau proffesiynol a chymunedol trwy gydol y flwyddyn a darperir cyfleusterau ar gyfer gwahanol gwmnïau ac artistiaid annibynnol sy'n ymweld.

Mae'r cwmni'n dod i gysylltiad â llu o gymunedau amrywiol a, bob blwyddyn, mae tua 120,000 o bobl yn cymryd rhan yn ein rhaglenni rheolaidd neu'n gweld un o'n cynyrchiadau teithiol.

Mae NoFit State yn gwmni creadigol, deinamig sy'n ffynnu wrth wynebu heriau ac sydd bob amser yn ceisio dysgu a gwella ym mhopeth a wnawn. Cawn ein hysbrydoli gan y pethau rhyfeddol y gall pobl gyffredin eu cyflawni ac rydym yn dathlu'r nerth cymunedol a ddaw o fywyd teithiol traddodiadol y syrcas.

A ninnau'n gwmni teithiol rhyngwladol sydd â'n gwreiddiau mewn cenedl ddwyieithog, mae NoFit State yn gwmni amlieithog ac amlddiwylliannol sy'n dathlu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.

## Diben

Cadarnhau a meithrin enw da'r cwmni a dyfnhau'r berthynas â chynulleidfaoedd, cyfranogwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid cyflwyno ledled Cymru a'r tu hwnt.  Byddwch yn arwain ymgyrchoedd llawn dychymyg a seilir ar ddata ac sy'n hyrwyddo ein brand, yn cynyddu ein heffaith ac yn sicrhau bod

pob gweithgaredd yn cyrraedd ei dargedau o ran gwerthiant, presenoldeb ac ymgysylltu, gan barhau'n driw i'n gwerthoedd – creadigrwydd a chynhwysiant.

## Cyfrifoldebau Allweddol

### Marchnata

- Datblygu a chynnal ymgyrch farchnata fywiog, greadigol a phwrpasol ar gyfer pob prosiect a phob rhan o’r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd print, ymgyrchoedd hysbysebu ac ymgyrchoedd yn y wasg, defnydd llawn o’r cyfryngau cymdeithasol ac offer ar-lein yn ogystal â thechnegau marchnata traddodiadol y syrcas

- Rheoli'r gwaith o ddatblygu deunyddiau wedi’u dylunio, gan greu cynnwys grymus sy'n ysbrydoli ar gyfer popeth a wnawn ar wahanol sianeli a phlatfformau, gan gyrraedd cynifer o’n cynulleidfaoedd posibl ag y bo modd

- Datblygu set gref a deniadol o ddeunyddiau hyrwyddo ar blatfformau amrywiol i hyrwyddo’r cwmni a’i holl waith wrth bartneriaid a rhanddeiliaid posibl, yn cynnwys partneriaid cyflwyno, noddwyr, cydgynhyrchwyr, partneriaid comisiynu, cyfranwyr ac arianwyr posibl

- Sicrhau bod brand a hunaniaeth y cwmni’n cael eu cynnal mewn ffordd gref a chydlynol gan ddefnyddio gwahanol leisiau, offer marchnata a phlatfformau

- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau’n cael eu paratoi mewn ieithoedd priodol a bod yr holl ddeunyddiau marchnata ar gyfer pob gweithgaredd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog

- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata'n cael eu cynhyrchu yn unol â'r arferion gorau cyfredol o ran hygyrchedd a chynhwysiant

## Cyfathrebu

- Meithrin perthynas gref â chynulleidfaoedd a chyfranogwyr trwy sicrhau cyfleoedd amrywiol, yn aml, iddynt ymwneud â'r cwmni yn ychwanegol at ein hymweliadau â'u hardal nhw – yn cynnwys cylchlythyrau ac e-daflenni rheolaidd – yn ogystal â chynnal gwefan y cwmni a gwneud y defnydd gorau o wahanol gyfryngau cymdeithasol

- Wrth gasglu a defnyddio data i ddeall patrymau a thueddiadau, gellir meincnodi effaith a chyrhaeddiad, a deall sut i dyfu a dysgu

- Arwain gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus a datblygu strategaeth gysylltiadau cyhoeddus yn ôl yr angen er mwyn cryfhau proffil a chyrhaeddiad y cwmni ar gyfer ymgyrchoedd penodol yn ogystal â'r cwmni yn ei gyfanrwydd, gan godi ymwybyddiaeth mewn marchnadoedd targed allweddol ymhlith pobl sy'n defnyddio'r cyfryngau prif ffrwd a chyfryngau eraill

- Ysgrifennu datganiadau i'r wasg, trafod gyda'r cyfryngau, rheoli a chydlynu cyfweliadau â'r wasg a nosweithiau ar gyfer y wasg

## Rheoli Gwybodaeth ac Adnoddau

- Hybu presenoldeb a phroffil ar-lein y cwmni, gan fod yn ymwybodol o dueddiadau'r cyfryngau cymdeithasol ac addasu ffordd y cwmni o'u defnyddio yn ôl yr angen, a monitro gweithgarwch organig ar y cyfryngau cymdeithasol

- Hybu dealltwriaeth y cwmni o weithgareddau yn y sector, dulliau arloesol o weithio, gwaith marchnata llwyddiannus, gwaith datblygu cynulleidfaoedd a thechnegau cyfathrebu er mwyn cryfhau perfformiad y cwmni

- Sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cofnodi a gofalu am archifau'r cwmni

- Deall a chynnal gwefannau'r cwmni gan sicrhau eu bod yn gyfredol, yn weledol ddeniadol ac yn afaelgar, gan gydweithio â datblygwyr a meddalwedd allanol i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth

- Datblygu system rheoli asedau digidol y cwmni i'w defnyddio yn fewnol ac yn allanol

- Sicrhau bod gan y cwmni systemau dibynadwy ar gyfer casglu data a systemau cadarn y gellir eu defnyddio i werthuso a monitro ymateb yn effeithiol

- Trefnu bod y cwmni'n dal yn aelod o rwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol ac yn cymryd rhan ynddynt

## Nodweddion personol a chymhwysedd proffesiynol

Mae gennych feddwl creadigol cadarn ac rydych wrth eich bodd yn cyfathrebu ac yn perswadio pobl. Mae gennych synnwyr gweledol cryf a dawn ieithyddol. Rydych yn mwynhau gwrando a dysgu, a deall beth sy’n ysgogi ac yn ysbrydoli pobl eraill. Rydych yn benderfynol o lwyddo ac yn mwynhau her. Mae gennych reddfau cryf ac rydych wedi dysgu ymddiried ynddynt – rydych yn herio’ch dealltwriaeth trwy fynd ati mewn ffordd drwyadl i gasglu data a thystiolaeth. Rydych yn agored i syniadau newydd ac yn cael eich hybu i adeiladu ar lwyddiannau’r gorffennol.

Mae’r celfyddydau’n rhan bwysig o’ch bywyd – ac rydych yn awyddus i sicrhau bod cynifer o bobl ag y bo modd yn cael cyfle i brofi gwaith NoFit State ac i gael eu hysbrydoli a’u herio ganddo. Rydych yn awyddus i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn tîm bychan o gydweithwyr. Rydych yn mwynhau cydweithio a rhoi syniadau ar waith. Rydych yn rhoi pwyslais mawr ar fanylder a chywirdeb yn eich gwaith; mae sicrhau canlyniadau da yn bwysicach i chi na gorffen tasgau, ac rydych yn deall bod gwir raid gwneud gwaith yn brydlon. Mae gennych feddwl clir ac rydych yn gallu blaenoriaethu a rheoli'ch amser yn dda.

**Sgiliau, nodweddion a phrofiad hanfodol**

O leiaf dair blynedd o brofiad mewn swydd gymharol yn sector y celfyddydau, marchnata neu'r sector greadigol

Wedi profi eich bod yn gallu ysbrydoli eraill, ennyn eu brwdfrydedd ac ymgysylltu â nhw trwy gyfathrebu ysgrifenedig mewn Saesneg

Wedi profi y gallwch amrywio cywair a geirfa yr iaith lafar ac ysgrifenedig yn dibynnu ar y cyd-destun a'r diben

Wedi profi eich bod yn gallu deall grym lluniau a defnyddio gwahanol ddulliau a deinameg gweledol yn llwyddiannus ar gyfer gwahanol gyd-destunau a dibenion

Gweithio'n eithriadol o fanwl a chywir

Wedi profi eich bod yn gallu defnyddio meddalwedd dylunio, CRM a systemau rheoli cynnwys, a dulliau marchnata trwy'r ebost

Wedi profi eich bod yn gallu cydweithio'n agos â datblygwyr

Wedi profi eich bod yn gallu defnyddio offer dadansoddi a rheoli'r cyfryngau cymdeithasol

Wedi profi eich bod yn gallu defnyddio prosesau dylunio ac argraffu er mwyn cynhyrchu deunyddiau

Wedi profi eich bod yn gallu rheoli sesiynau tynnu lluniau a chomisiynu fideos hyrwyddo yn llwyddiannus

Wedi profi eich bod yn gallu gwneud gwahanol ddeunyddiau marchnata yn hygyrch

Wedi profi eich bod yn gallu rheoli cyllidebau ymgyrchoedd a thrafod gydag isgontractwyr a chyflenwyr er mwyn cael y gwerth gorau am arian

**Sgiliau, nodweddion a phrofiad dymunol**

Profiad blaenorol ym myd y syrcas gyfoes

Y gallu i ysbrydoli eraill, ennyn eu brwdfrydedd ac ymgysylltu â nhw trwy gyfathrebu ysgrifenedig mewn ieithoedd eraill – yn enwedig Cymraeg neu Ffrangeg

Gallu siarad Cymraeg yn hyderus

Profiad o baratoi deunyddiau at wahanol ddibenion: hyrwyddo cwmni mewn rhyw sector; paratoi deunyddiau ar gyfer partneriaid cyflwyno a chomisiynu; a marchnata perfformiadau i gynulleidfaoedd

Gwybodaeth weithiol dda o Spektrix, Concrete 5, DotDigital, Adobe Creative Suite (yn enwedig InDesign, Photoshop ac Illustrator), Canva

Profiad o integreiddio gwaith o-wefan-i-system-fwcio

Profiad a dealltwriaeth o GA4

Wedi profi eich bod yn gallu paratoi dyluniadau i'w hargraffu

Wedi profi eich bod yn gallu golygu lluniau a fideoes, eu gwella a'u haddasu

Profiad blaenorol o farchnata cymunedol

## Rheolaeth Llinell

Byddwch yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol
Byddwch yn gyfrifol am fod yn rheolwr llinell i'r Cynorthwyydd Marchnata a Chyfathrebu
Byddwch yn gyfrifol am nifer o gyflenwyr a chontractwyr llawrydd
Byddwch yn cydweithio â'r tîm craidd a'r cwmni'n ehangach

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae hon yn swydd lawn-amser a pharhaol yn dilyn cyfnod prawf cychwynnol o dri mis.

Cyflog: £31,000 - £32,500 yn dibynnu ar brofiad.

Mae'n swydd PAYE a bydd y sawl a benodir yn gweithio'n bennaf ym mhrif swyddfa'r cwmni yn Four Elms, Caerdydd. Gellir ystyried gweithio hybrid, ond bydd rhaid i'r rhan fwyaf o'r amser fod yn y swyddfa a bydd rhaid cytuno ymlaen llaw ar unrhyw drefniadau gyda'r rheolwr llinelli.  Gall fod angen gweithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau.

Mae Nofit State yn ymdrechu i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned.

Mae NoFit State yn gyflogwr Cyflog Byw ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth a'r gofynion statudol fel safon ofynnol i adeiladu arni.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Os hoffech ragor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y swydd hon, gallwch ebostio [alison@nofitstate.com](mailto:alison@nofitstate.com)

## Y Broses Recriwtio

### Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 10am, dydd Mawrth, 17 Mehefin 2025

Cyfweliadau: Wythnos yn dechrau 23 Mehefin 2025

Syniad o’r dyddiad dechrau: Yn syth / Cyn gynted â phosibl

**I ymgeisio,** llanwch y ffurflen gais a’r ffurflen monitro cydraddoldebau a’u hanfon gyda llythyr byr yn esbonio pam yr hoffech ymuno â'n tîm i:

jobs@nofitstate.org

Neu eu postio i: Marketing and Communications Application
NoFit State Circus
Four Elms Road
Caerdydd CF24 1LE